

Rhif: WG14775

Llywodraeth Cymru

Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad

Mesurau Gwella Coridor yr M4 Magwyr i Gas-bach (M4 CEM) Lleddfu'r Llif

Dyddiad cyhoeddi: 6 Mawrth 2012

Ymatebion erbyn: 6 Orffennaf 2012



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dylid darllen y ffurflen ymateb hon law yn llaw â'r Ddogfen Ymgynghori sy'n rhoi gwybodaeth i'ch helpu chi i ymateb i'r cwestiynau rydym yn eu gofyn.

Bydd yr adborth a rowch yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru wrth iddi wneud penderfyniad ar y strategaeth fwyaf effeithiol i fynd i'r afael â phroblemau capasiti, cadernid a diogelwch a datblygiad cynaliadwy ar Goridor yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.

Gellir cyflwyno ymatebion:

- **Ar-lein:** drwy fynd i www.wales.gov.uk/consultations neu www.m4cem.com
- **Trwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb hon:** gallwch ei llenwi a'i hanfon i *Freepost M4 CEM CONSULTATION*

Er mwyn i'ch ymateb allu cael ei ystyried fel rhan o'r broses ymgynghori hon, gwnewch yn siwr eich bod yn llenwi adrannau A a B isod:

A) Gwybodaeth amdanoch chi

Enw cyntaf		Cyfenw	
Sefydliad (os yw'n gymwys)			
Cyfeiriad			
Côd post			
E-bost			

Diogelu Data

Bydd cyflwyniadau i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio mewn adroddiad a fydd ar gael i'r cyhoedd. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn briodol. Os nad ydych am i'ch enw neu gyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch yma. Byddwn yn eu cuddio wedyn.

Darllenwch y wybodaeth am ddiogelu data yn y Ddogfen Ymgynghori.

B) Eich arferion teithio

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor aml y byddwch yn defnyddio traffordd yr M4 o amgylch Casnewydd (dewiswch un ateb yn unig)

- Yn ddyddiol Yn wythnosol Weithiau Byth

Yn gyffredinol, sut fydddech chi'n disgrifio diben y siwrneiau hyn? (dewiswch un ateb yn unig)

- Cymudo yn ôl ac ymlaen i'r gwaith yn bennaf
 Busnes yn bennaf
 Hamdden yn bennaf
 Cyrraedd gwasanaethau yn bennaf, e.e. ysgolion, colegau, gofal iechyd, ac ati

Cwestiwn 1a. Yn eich barn chi, pa rai o'r problemau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a restrwyd yw'r pwysicaf i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw gyda'r rhaglen M4 CEM?

(Dewiswch hyd at bedwar o'r problemau â rhif ar dudalen 4. Nid yw dewis pedwar yn dynodi nad yw problemau eraill yn berthnasol, ond bydd yn ein helpu i ddeall eich blaenoriaethau)

Cwestiwn 1b. A hoffech wneud unrhyw sylwadau eraill ar y problemau sy'n gysylltiedig â thraffig y dylai'r Rhaglen M4 CEM fynd i'r afael â nhw?


Cwestiwn 2a. Yn eich barn chi, pa rai o'r nodau a restrwyd yw'r pwysicaf i Lywodraeth Cymru eu cyflawni gyda'r Rhaglen M4 CEM?

(Dewiswch hyd at bedwar o'r nodau â rhif ar dudalen 5. Ni fydd dewis pedwar yn diystyru nodau eraill, ond bydd yn ein helpu i ddeall eich blaenoriaethau)

Cwestiwn 2b. A hoffech wneud unrhyw sylwadau eraill ar nodau'r Rhaglen M4 CEM?

Mynd i'r afael â'r problemau a chyflawni'r nodau

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio lleihau tagfeydd a chyflawni nodau M4 CEM trwy greu cyfuniad o fesurau trafndiaeth gyhoeddus, seilwaith priffyrdd a mesurau cyffredin (gweler Pennod 7). Ni all mesurau trafndiaeth gyhoeddus na mesurau seilwaith priffyrdd ar eu pennau'u hunain fynd i'r afael â'r problemau a chyflawni nodau Rhaglen M4 CEM.



Mesurau Cyffredin (gweler Pennod 10)

Mae mesurau cyffredin yn cynnwys cymysgedd o fesurau priffyrdd, rheoli'r galw a mesurau moddau amgen, gan gynnwys opsiynau sy'n annog dewisiadau teithio cynaliadwy doethach. Mae'r rhain yn cefnogi pob cyfuniad o'r mesurau trafndiaeth gyhoeddus a seilwaith priffyrdd ac yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â theithio ar goridor yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.

Mesurau Trafndiaeth Gyhoeddus (gweler Pennod 8)

Cyflwynir nifer o fesurau trafndiaeth gyhoeddus i annog newid moddol a lleihau'r ddibyniaeth ar y cerbyd preifat yn ardal Casnewydd.

Cwestiwn 3a. Yn eich barn chi, pa rai o'r mesurau trafndiaeth gyhoeddus a restrwyd fyddai'n gwneud y cyfraniad gorau o ran leddfu traffig ar yr M4? (Ticiwch bob un sy'n gymwys)

- Gwasanaethau prif lein ychwanegol rhwng Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Bryste
- Gwasanaethau trên ychwanegol ar lwybrau lleol
- Mwy o orsafoedd gyda chyfleusterau parcio a theithio
- Mwy o wasanaethau cysylltu bysys/trenau
- Gwasanaethau bysys/coetsys cyflym ychwanegol rhwng Caerdydd, Casnewydd a Bryste
- Gwasanaethau bws lleol ychwanegol o amgylch ac ar draws Casnewydd

Cwestiwn 3b. I ba raddau yn eich barn chi, y bydd y mesur(au) trafndiaeth gyhoeddus a ddewisoch yn mynd i'r afael â'r problemau ac yn cyflawni'r nodau a ddewiswyd gennych?

Opsiynau Seilwaith Priffyrdd (Pennod 9)

Cyflwynir nifer o fesurau capasiti priffyrdd gwahanol, gyda'r nod o gynyddu capasiti priffyrdd a gwella cadernid a diogelwch ar goridor yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach. Dyma'r opsiynau:

- **Opsiwn A:** Ffordd newydd o ansawdd uchel i'r de o Gasnewydd
- **Opsiwn B:** Gwelliannau un-lefel i Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol (SDR) yr A48
- **Opsiwn C:** Gwelliannau aml-lefel i Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol (SDR) yr A48
- **Opsiwn D:** Lledu ar-lein i 4 lôn ar yr M4 Cyffyrdd 24-29, gan gynnwys twnnel ychwanegol ym Mrynglas

Cwestiwn 4a. I ba raddau yn eich barn chi fydd Seilwaith Priffyrdd Opsiwn A yn mynd i'r afael â'r problemau ac yn cyflawni'r nodau a ddewiswyd gennych?

Cwestiwn 4b. I ba raddau yn eich barn chi fydd Seilwaith Priffyrdd Opsiwn B yn mynd i'r afael â'r problemau ac yn cyflawni'r nodau a ddewiswyd gennych?

Problemau yn Gysylltiedig â Thrafnidiaeth

Mae rhanddeiliaid a phobl yng Nghasnewydd a'r cylch wedi nodi'r problemau a restrir isod (gweler hefyd Pennod 3 o'r brif ddogfen ymgynghori ffurfiol).

Cyfeiriwch at y rhestr hon o broblemau pan fyddwch yn ateb Cwestiwn 1a a 1b.

Capasiti

1. Mae mwy o draffig yn defnyddio'r M4 o amgylch Casnewydd nag y dyluniwyd y ffordd i ymdopi ag ef, ac mae hynny'n arwain at dagfeydd rheolaidd ar adegau prysur dros gyfnodau hir.
2. Mae'r M4 o amgylch Casnewydd yn cael ei defnyddio fel cysylltiad cyfleus ar draws y dref i draffig lleol, am fod capasiti annigonol ar ffyrdd lleol.
3. Nid yw cerbydau nwyddau trwm yn gweithredu'n effeithlon ar y draffordd o amgylch Casnewydd.
4. Mae capasiti annigonol drwy rai o'r cyffyrdd (e.e. mae capasiti 3 lôn yn lleihau i gapasiti 2 lôn).
5. Mae twneli 2 lôn Brynglas yn rhwystr mawr i gapasiti.
6. Ni all yr M4 ymdopi â thraffig cynyddol o ddatblygiadau newydd.

Cadernid

7. Anawsterau yn cynnal llifoedd traffig digonol ar yr M4 a llwybrau priffyrdd amgen ar adegau pan fo tarfu dros dro; nid yw llwybrau amgen yn gallu ymdopi â thraffig yr M4.
8. Mae'r system trafndiaeth ffordd a rheilffordd yng Nghoridor yr M4 a'r cylch dan risg gynyddol o darfu yn sgil digwyddiadau tywydd garw.
9. Pan fo problemau ar yr M4, mae tarfu a thagfeydd difrifol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a rhanbarthol.
10. Mae angen gwaith cynnal a chadw mawr ar yr M4 o fewn y 5-10 mlynedd nesaf; bydd hyn yn golygu cyfyngiadau hir ar lonydd a chyflymder, a bydd hynny'n cynyddu problemau tagfeydd.
11. Nid oes digon o wybodaeth ymlaen llaw i lywio penderfyniadau teithio pan fydd problem ar yr M4.

Diogelwch

12. Mae'r cyfraddau damweiniau ffordd ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer traffyrdd y DU.
13. Mae'r M4 bresennol o safon annigonol o gymharu â safonau dylunio modern.
14. Mae ymddygiad gyrru rhai pobl yn arwain at fwy o ddamweiniau (e.e. goryrru, meddiannu lonydd, gyrwyr heb drwydded).

Datblygu Cynaliadwy

15. Mae diffyg dewisiadau trafndiaeth integredig cynaliadwy ar gyfer defnyddwyr ffordd presennol.
16. Mae sŵn traffig o'r draffordd ac ansawdd yr aer yn broblem i drigolion lleol mewn rhai ardaloedd.
17. Mae'r rhwydwaith trafndiaeth presennol yn rhwystr i dwf economaidd, ac mae'n effeithio'n niweidiol ar yr economi bresennol.

Nodau'r Rhaglen M4 CEM

Ar ôl nodi'r problemau yng Nghwestiwn 1 datblygwyd y nodau a restrir isod gyda'r nod o leddfu'r llif ar goridor yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach (gweler Pennod 4).

Cyfeiriwch ar y rhestr hon o nodau pan fyddwch yn ateb Cwestiwn 2a a 2b.

Pan fydd y Rhaglen M4 CEM ar ben, byddwn yn elwa o:

1. Deithio mwy diogel, haws a mwy dibynadwy o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn Ne Cymru.
2. Gwell cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghymru ac i Loegr, Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop ar bob dull ar y rhwydwaith trafnidiaeth rhyngwladol.
3. Defnydd mwy effeithiol ac integredig o ddewisiadau amgen i'r M4, gan gynnwys rhannau eraill o'r rhwydwaith trafnidiaeth a dulliau teithio eraill ar gyfer siwrneiau lleol a strategol o amgylch Casnewydd.
4. Gwneud y defnydd gorau posibl o'r M4 bresennol, y rhwydwaith ffyrdd lleol a rhwydweithiau trafnidiaeth eraill.
5. Amserau siwrneiau mwy dibynadwy ar hyd coridor yr M4.
6. Cynyddu lefel y dewis i bawb sy'n teithio ar hyd y coridor trafnidiaeth gan ddefnyddio pob dull rhwng Magwyr a Chas-bach, yn gymesur â'r galw am ddewisiadau amgen.
7. Gwell diogelwch ar Goridor yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.
8. Gwell ansawdd aer mewn ardaloedd nesaf at yr M4 o amgylch Casnewydd.
9. Llai o aflonyddu ar bobl yn sgil lefelau sŵn uchel, o'r holl ddulliau teithio a thraffig ar goridor yr M4.
10. Llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul cilometrau cerbyd a/neu bobl.
11. Profiad teithio gwell i mewn i Dde Cymru ar hyd Coridor yr M4.
12. M4 sy'n ddeniadol ar gyfer siwrneiau strategol sy'n annog peidio â'i defnyddio gan draffig lleol.
13. Gwell rheolaeth ar draffig yng Nghasnewydd a'r cylch ar Goridor yr M4.
14. Mynediad haws at wasanaethau allweddol lleol a chanolfannau preswyl a masnachol.
15. Newid diwylliannol mewn ymddygiad teithio tuag at ddewisiadau mwy cynaliadwy.

Cwestiwn 4c. I ba raddau yn eich barn chi fydd Seilwaith Priffyrdd Opsiwn C yn mynd i'r afael â'r problemau ac yn cyflawni'r nodau a ddewiswyd gennych?

Cwestiwn 4d. I ba raddau yn eich barn chi fydd Seilwaith Priffyrdd Opsiwn D yn mynd i'r afael â'r problemau ac yn cyflawni'r nodau a ddewiswyd gennych?

Cwestiwn 5. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r problemau'n gysylltiedig â theithio sy'n digwydd ar Goridor yr M4, Magwyr i Gas-bach?

Diolch i chi am eich cyfraniad

